Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Awst 2024
(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hapsamplu y Panel Craffu Stelcio ac Aflonyddu

## Canfyddiadau ac adborth yr aelodau

## Awst 2024

## Cynnwys

1. Trosolwg, cefndir, pwrpas 3

2. Crynodeb gweithredol 5

3. Adolygiad o achosion o stelcio ac aflonyddu 8

4. Sylwadau ac arsylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 11

## 1. Trosolwg, cefndir, pwrpas

Mae'r llawlyfr Sicrhau Ansawdd, sydd ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn nodi

cefndir, pwrpas a methodoleg y panel.

Ar 19 Awst 2024, cyfarfu aelodau'r panel sicrwydd ansawdd ym mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i adolygu detholiad o ddigwyddiadau yn ymwneud â chofnodion stelcio ac aflonyddu a chamerâu corff, sef dyfeisiau camera bach y mae swyddogion heddlu yn eu defnyddio i gofnodi digwyddiadau. Archwiliwyd y ffilm fideo a'r ffurflenni ymchwilio o dri digwyddiad stelcio ac aflonyddu i asesu'r canlynol:

1) A wnaeth y swyddog nodi troseddau stelcio yn y camau cychwynnol gyda'r dioddefwr?
2) Sut wnaeth y swyddog gyfathrebu â'r dioddefwr a'i gefnogi?
3) A wnaeth y swyddog ystyried achosion blaenorol o dorri gorchymyn sifil gan y cyflawnwr neu a weithredodd orchymyn sifil i ddiogelu'r dioddefwr?

Mae pwrpas y cyfarfod panel sicrhau ansawdd hwn yn deillio o adolygiad craffu dwys Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn 2023: *A yw Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli cyflawnwyr stelcio ac aflonyddu yn effeithiol?* Yn yr adroddiad hwn, mae'n diffinio'r gwahaniaeth rhwng stelcio ac aflonyddu fel a ganlyn:

> *"Gall **aflonyddu** gynnwys bwlio yn yr ysgol neu yn y gweithle; stelcio seiber (defnyddio'r rhyngrwyd i aflonyddu ar rywun); ymddygiad gwrthgymdeithasol; anfon negeseuon testun sarhaus; anfon anrhegion diangen; neu alwadau ffôn, llythyrau, e-byst neu ymweliadau digroeso. Mae'n aflonyddu os yw'r ymddygiad digroeso wedi digwydd fwy nag unwaith.*
> *Mae **stelcio** yn debyg i aflonyddu, ond mae'n fwy ymosodol. Bydd gan y stelciwr obsesiwn gyda'r person y mae'n ei dargedu. Gallai rhywun rydych*

*chi'n ei adnabod fod yn eich stelcio; cynbartner neu berson yr oeddech yn ffrindiau â hwy neu efallai ei fod yn ddieithryn. Os yw'n rhywun yr ydych yn ei adnabod, neu yr oeddech yn ei adnabod, nid yw'n golygu mai eich bai chi ydyw; mae'n dal i fod yn stelcio ac mae'n drosedd.* Gall stelcio gynnwys dilyn rhywun yn rheolaidd; mynd dro ar ôl tro heb wahoddiad i'w cartref; gwirio defnydd rhywun o'r rhyngrwyd, e-bost neu gyfathrebiad electronig arall; aros o gwmpas rhywle y mae'n gwybod y mae'r person yn ymweld ag ef yn aml; ymyrryd â'i eiddo; gwylio neu ysbïo ar rywun; neu ddwyn hunaniaeth (cofrestru ar gyfer gwasanaethau, prynu pethau yn enw rhywun). *Mae'n stelcio os yw'r ymddygiad digroeso wedi digwydd fwy nag unwaith. Y pedwar arwydd rhybudd o stelcio yw os yw'r ymddygiad rydych chi'n ei brofi yn: • sefydlog • obsesiynol • dieisiau • wedi'i ailadrodd".*

Cafwyd mewnbwn gan y Cydlynydd Gorchmynion Sifil newydd, a esboniodd mai ei rôl yw asesu risg, rheoli'r gorchmynion a deall y rhwystrau i'w symud ymlaen. Mae nifer o wahanol orchmynion sifil/hysbysiadau ac amodau y gellir eu cymhwyso i achosion stelcio ac aflonyddu, sy'n cynnwys:

1. Hysbysiadau diogelu rhag trais domestig
2. Gorchmynion diogelu rhag trais domestig
3. Gorchmynion peidio ag ymyrryd
4. Gorchmynion diogelu rhag stelcio
5. Gorchmynion atal
6. Amodau mechnïaeth

Roedd rhai o'r rhwystrau a nodwyd gan y Cydlynydd Gorchmynion Sifil yn ymwneud â'r amser cwblhau ar gyfer gweithredu gorchmynion sifil. Ac eithrio Hysbysiad Diogelu Rhag Trais Domestig, mae angen i orchmynion sifil gael eu hawdurdodi gan y llysoedd, sy'n delio â nifer fawr o achosion ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae angen i bob gorchymyn sifil gael ei gefnogi gan y

dioddefwr; felly, os na fydd y dioddefwr yn rhoi ei ganiatâd, ni fydd yn bosib defnyddio'r adnoddau diogelu sydd ar gael i'r heddlu.
Pwysleisiodd y Cydlynydd Gorchmynion Sifil bwysigrwydd ei rôl o ran addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith swyddogion, er mwyn sicrhau bod gorchmynion sifil yn cael eu defnyddio'n briodol i ddiogelu'r dioddefwyr. Mae'r Cydlynydd Gorchmynion Sifil yn gweithio ochr yn ochr â'r Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-Drin Domestig, a'i rôl yw adolygu achosion o stelcio trwy ddefnyddio'r asesiad sgrinio ar gyfer stelcio ac aflonyddu, sef cymorth gwneud penderfyniadau sy'n cynorthwyo'r heddlu i adnabod y dioddefwyr hynny sy'n agored i droseddwr stelcio risg uchel. Mae'r Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-Drin Domestig hefyd yn gyfrifol am gychwyn rhaglenni cyflawnwyr i adsefydlu troseddwyr rhag stelcio eto trwy eu haddysgu am effaith eu hymddygiad trwy raglenni fel y rhaglen Myfyrio ar Berthnasoedd.

Yn gyffredinol, daeth y panel i'r casgliad bod cymhlethdod digwyddiadau stelcio ac aflonyddu yn fwy na'r disgwyl. Mewn cyfarfodydd panel sicrhau ansawdd blaenorol, byddai gofyn i'r panel adolygu saith i ddeg achos, gyda hyd cyfartalog pob fideo camera corff yn para tua deg i bymtheg munud. Yn yr achos hwn, roedd hyd cyfartalog pob fideo yn 55 munud. Ar gyfer pob fideo, roedd hyn yn cynnwys y cyswllt cychwynnol gyda'r dioddefwr, trafodaeth am yr asesiad cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, y broses cymryd datganiadau ac unrhyw ddarpariaethau arbennig a oedd eu hangen i fynd i'r llys. Effeithiwyd hefyd ar nifer yr achosion gan faint o wybodaeth a gafodd y panel mewn perthynas â ffeiliau achos yr ymchwiliad er mwyn canfod a ystyriwyd gorchymyn sifil ac a dorrwyd gorchymyn sifil blaenorol. Arweiniodd hyn at graffu ar dri achos yn gyfan gwbl.

## 2. Crynodeb gweithredol

Isod ceir trosolwg o ganfyddiadau'r panel:

- **Dioddefwyr benywaidd** - Holodd y panel a oedd yr holl ddioddefwyr dan sylw, fel rhan o'r craffu hwn, yn fenywod. Cadarnhaodd y Cydlynydd Gorchmynion Sifil fod naw Hysbysiad Diogelu Rhag Trais Domestig wedi cael eu rhoi i gyflawnwyr benywaidd rhwng Ebrill ac Awst 2024.

- **Cyswllt llygad** - Pwysleisiodd y panel bwysigrwydd cyswllt llygad gyda dioddefwr wrth sefydlu gwybodaeth sensitif. Oherwydd natur a swm yr wybodaeth a ddatgelwyd ar gyfer troseddau stelcio ac aflonyddu, teimlwyd bod swyddogion yn aml yn canolbwyntio ar fewnbynnu gwybodaeth i'w dyfais symudol am gyfnod estynedig o amser. Arweiniodd hyn at rai cyfnodau hir o dawelwch cyn gofyn y cwestiwn nesaf. Mynegodd y panel bryder y gallai'r cyfnod hwn o dawelwch achosi cynnwrf i ddioddefwyr a phwysleisiodd y byddai rhoi sicrwydd trwy gyswllt llygad yn cysuro dioddefwyr. Roedd y panel hefyd o'r farn y dylai swyddogion egluro, ar ddechrau'r broses, pwrpas defnyddio eu dyfeisiau symudol; sef pwysleisio pwysigrwydd cofnodi ymatebion dioddefwyr i gwestiynau yn gywir ac yn effeithlon ar gyfer yr asesu risg ac ymholiadau ymchwilio.
- **Dim arwyddlun heddlu yn y cefndir** - Wrth edrych ar yr ymateb cyflym drwy fideo at ddiben yr uned ymateb rhithwir i gam-drin domestig, nodwyd nad oedd gan y swyddog arwyddlun yr heddlu nac unrhyw ffurf arall o ddull adnabod swyddogol yn y cefndir, ac ystyriwyd hyn yn amhroffesiynol.
- **Tarfu amgylcheddol ar fideo camera corff** - Mae'r panel yn credu, gan fod swyddogion yn defnyddio camera corff at ddibenion tystiolaethol, y dylid gwneud ymdrech ystyriol i sicrhau nad amherir ar ansawdd y sain. Ar sail y fideos a wyliwyd, teimlai'r panel ei bod yn bwysig bod swyddogion, wrth gynnal ymholiadau neu asesiadau risg, bob amser yn ystyried pa mor agos ydynt at y dioddefwr a'u hamgylchedd o ran sŵn amgylcheddol. Awgrymwyd hefyd y dylid symud teulu, ffrindiau, plant ac anifeiliaid anwes i ystafell ar wahân lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn addas ar gyfer anghenion y dioddefwr, gan y gallant effeithio ar ansawdd sain meicroffon y camera.
- **Anawsterau technoleg** - Teimlwyd bod y ddyfais symudol a ddefnyddir gan swyddogion yn ddull aneffeithlon o gofnodi troseddau/digwyddiadau oherwydd ei maint. Roedd yn ymddangos ei bod yn anodd llywio ar theipio ar y ddyfais symudol er mwyn cael

datganiad.

- **Gorchmynion sifil** - Yn y tri fideo camera corff a wyliwyd, ni chlywyd unrhyw swyddog yn trafod opsiynau gorchmynion sifil.

## 3. Adolygiad o achosion o stelcio ac aflonyddu

*Achos 1*

### Pwyntiau cadarnhaol

- Clywyd y swyddog arweiniol yn y fideo camera corff, tra'n ymgynghori â'i gydweithwyr, yn cadarnhau ei fod wedi nodi troseddau stelcio ar unwaith.
- Dangosodd y swyddog arweiniol empathi rhagorol tuag at y dioddefwr wrth ymgymryd â chwestiynau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu. Mae'r cwestiynau hyn yn sensitif a threiddiol eu natur er mwyn hwyluso asesiad risg cywir. Rhoddodd y swyddog rybuddion priodol i'r dioddefwr ynghylch natur y cwestiynau hyn, tra hefyd yn darparu cyngor lles, cefnogaeth ac anogaeth drwy gydol yr amser.
- Roedd y dioddefwr yn gefnogol i gamau gweithredu'r heddlu a rhoddwyd cyngor diogelu priodol iddo.
- Roedd hon yn sefyllfa gymhleth gyda gwrth-honiad gan y parti arall. Yn ystod y fideo camera corff, dangosodd swyddogion resymu ac ystyriaeth gadarn o ran sensitifrwydd y mater ac ymdriniwyd â'r senario yn dda.

### Pwyntiau negyddol

- Defnydd aneffeithlon o ddyfais data symudol. Ystyrir bod y ddyfais yn rhy fach at ddibenion sgrolio a mewnbynnu gwybodaeth. Er bod y swyddog arweiniol yn dangos empathi da, roedd y defnydd o'r ddyfais symudol i'w weld yn dangos nad oedd y swyddogion yn tawelu meddwl y dioddefwr oherwydd diffyg cyswllt llygad.
- Mewn perthynas â gorchmynion sifil, roedd y panel yn ei chael yn anodd canfod a oedd y rhain yn eu lle. Nodwyd o fewn gwaith papur yr ymchwiliad bod Hysbysiad Amddiffyn Rhag Trais Domestig wedi'i ystyried; fodd bynnag, nid oedd yn amlwg a gafodd hyn ei archwilio ymhellach. Tybiodd y panel, gan fod gorchymyn llys yn ei le, efallai bod gorchymyn sifil yn ofynnol. Ni chlywyd trafodaeth ar orchmynion sifil ar unrhyw adeg yn ystod y fideo camera corff a wyliwyd.
- Nodwyd nad oedd swyddog yr achos wedi ymweld â'r dioddefwr cyn cau'r ymchwiliad; fodd bynnag, fe dybiodd y panel ei bod yn ymddangos bod y dioddefwr wedi rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r heddlu. Cofnodwyd tri ymgais i alw'r dioddefwr a soniwyd am anfon llythyr heb unrhyw ymateb; felly, roedd y panel o'r farn na ellid gwneud llawer mwy ar yr achlysur hwn cyn cau'r digwyddiad. Fodd bynnag, cwestiynodd y panel y rhesymau pam y rhoddodd y dioddefwr y gorau i ymgysylltu; ni chofnodwyd hyn ar y cofnod a adolygwyd ganddynt.
- Oherwydd agosrwydd y swyddog a'r dioddefwr, teimlwyd bod ci'r teulu wedi effeithio ar eglurder rhai o atebion y dioddefwr. Holodd y

panel a ddylai'r ci fod wedi cael ei symud i ystafell wahanol wrth ymgymryd â chwestiynau cychwynnol i ganfod yr amgylchiadau a bwrw ymlaen â'r asesiad cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu.

**Materion a godwyd**

- A ddylai swyddogion roi ystyriaeth i egluro, cyn cychwyn unrhyw recordiadau o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu neu ddatganiad, y byddant yn defnyddio eu dyfais symudol i fewnbynnu data a chwestiynu ymatebion?
- A ellid defnyddio'r ffilm camera corff at ddibenion cyfieithu'r hyn sy'n cael ei drafod ar ffurflen datganiad, fel lawrlwytho trawsgrifiad? Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i swyddogion ystyried atebion a diogelu'r dioddefwr.
- Nododd aelodau'r panel fod swyddogion yn cwestiynu a ddylent ystyried Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio a'i bod wedi cymryd dau fis a hanner i'r penderfyniad gael ei wrthod. Roedd hyn yn ymddangos yn amser hir a holodd y panel a oedd hyn yn cael ei ystyried yn briodol o ystyried cymhlethdod y digwyddiad. A yw'r heddlu yn ystyried yr oedi gyda'r ymchwiliad yn rhy hir?
- Roedd yn ymddangos bod y dioddefwr yn gefnogol i gamau gweithredu'r heddlu ar y dechrau yn ystod y fideo camera corff, ond dosbarthwyd y digwyddiad yn ddiweddarach fel un dim gweithredu pellach wrth i'r dioddefwr roi'r gorau i ymateb i alwadau. A ddylai swyddog yr achos fod wedi gwneud ymdrechion i ymweld â'r dioddefwr cyn penderfynu cau'r digwyddiad? A yw'r heddlu o'r farn y gallai'r gwrth-honiad fod wedi bod yn ffactor pam y bu i'r dioddefwr wrthod ymgysylltu â'r ymchwiliad hwn ymhellach? A ddylai rhesymeg y dioddefwr dros dynnu ei gefnogaeth yn ôl fod wedi cael ei chofnodi gan swyddog yr achos?

*<u>Achos 2</u>*

**Cadarnhaol**

- Teimlwyd bod y swyddog hwn wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'w ymateb. Cymerodd y swyddog ei amser i egluro beth oedd yn digwydd, beth oedd i fod i ddigwydd a'r rhesymu. Roedd y swyddog yn cyfateb ei holi â chyflymder y dioddefwr a chlywyd ef yn ymddiheuro am ofyn cwestiynau sensitif ac arweiniodd hyn at ryngweithio da.
- Clywyd y swyddog cysylltiedig yn trafod cyngor diogelwch a gorchymyn ymddygiad â phlentyn y dioddefwr a oedd yn ei arddegau.
- Roedd y ddogfen ymchwiliol yn cynnwys cyfran fawr o ystyriaethau diogelu ymhlith mesurau eraill mewn perthynas â'r drosedd o stelcio.
- Eglurodd y swyddog fesurau arbennig i fynd i'r llys.
- O fewn yr adroddiad, ystyriwyd gorchmynion sifil; fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau llys a mechnïaeth yr heddlu eisoes mewn grym, penderfynwyd nad oedd angen gorchymyn sifil.

- Derbyniodd y dioddefwr alwad ffôn y diwrnod ar ôl yr adroddiad i roi diweddariad, ac ystyriwyd hyn yn wasanaeth rhagorol.

**Pwyntiau negyddol**

- Teimlwyd bod ci'r teulu wedi effeithio ar eglurder rhai o atebion y dioddefwr ar y recordiad. Roedd y panel o'r farn y byddai o fudd i'r dioddefwr a'r heddlu i anifeiliaid anwes y teulu gael eu symud i leoliad ar wahân os yn bosibl.
- Ymdriniwyd â hyn yn wreiddiol fel digwyddiad aflonyddu cam-drin domestig ond fe'i newidiwyd wedyn i stelcio gydag ofn trais gan y goruchwyliwr.
- Tra bod y swyddog yn trafod mesurau arbennig i fynd i'r llys, ni ddarparwyd unrhyw fanylion am y math o fesurau oedd ar gael i'r dioddefwr; er enghraifft, gallu darparu ei dystiolaeth o bell neu ddefnyddio sgriniau yn y llys.
- Nid oedd gan y ddyfais wrth fewnbynnu atebion y dioddefwr signal i ddechrau.
- Tra'n gofyn cwestiynau sensitif, bu cyfnod hir o dawelwch tra bod y swyddog yn mewnbynnu'r wybodaeth i'r ddyfais symudol. Arweiniodd hyn at golli cyswllt llygad â'r dioddefwr, a theimlai'r panel fod hwnnw'n hanfodol ar gyfer tawelwch meddwl a dangos empathi.

**Materion a godwyd**

- Holodd aelodau'r panel a fyddai'n well gan ddioddefwyr gael swyddog o'r un rhyw yn cynnal eu cyfweliad.
- Nododd y panel hefyd fod lluniau o rai rhannau personol yn cael eu tynnu i ddangos cleisio, a holodd a oedd/a ddylai fod wedi ymchwilio i gael swyddog o'r un rhyw yn tynnu'r lluniau? Er bod y panel yn cydnabod nad yw hyn bob amser yn bosibl, teimlwyd y dylai'r opsiwn hwn fod ar gael bob amser i ddioddefwyr stelcio ac aflonyddu.

*Achos 3*

*Sylwer: Cafodd y camera corff ar gyfer y digwyddiad hwn ei recordio o bell fel rhan o ymateb cyflym drwy fideo Uned Ymateb Rhithwir i Gam-Drin Domestig Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r broses yn cynnwys swyddogion heddlu yn galw dioddefwyr digwyddiadau domestig lefel isel o bell.*

**Pwyntiau cadarnhaol**

- Rhoddodd y swyddog esboniad da pam ei bod yn bwysig cael datganiad gan y dioddefwr.
- Nodwyd bod y troseddwr honedig wedi torri amodau mechnïaeth yn flaenorol.
- Oherwydd natur rithwir yr ymgysylltiad hwn, cafodd y dioddefwr alwad yn llawer cyflymach nag aros i swyddog gymryd manylion wyneb yn wyneb ar ôl adrodd trwy 101.
- Rhoddodd y swyddog sicrwydd i'r dioddefwr ac esboniodd y broses yn dda.

- O fewn y dogfennau ymchwiliol, roedd yn amlwg bod yr heddlu wedi ymgysylltu â'r adran gwasanaethau cyfreithiol i drafod opsiynau gorchymyn sifil.

**Pwyntiau negyddol**

- Oherwydd y ffordd yr oedd camera'r swyddog wedi'i leoli a'r ffaith fod y swyddog yn gweithio o sgriniau lluosog, nid oedd yn ymddangos bod llawer o gyswllt llygad. Teimlai'r panel fod hyn yn bwysig fel y dangoswyd yn gynharach yn yr adroddiad.
- Roedd y panel yn rhanedig yn eu barn ar natur rithiol y sgwrs ffôn. Er bod rhai yn cydnabod ei gyfleustra ac y gallai fod yn well gan rai cenedlaethau'r dull hwn o adrodd gwybodaeth sensitif, mynegodd eraill bryderon ynghylch ei natur amhersonol.
- Amlygwyd dillad y swyddog gan aelodau'r panel. Roedd y swyddog yn gwisgo hwdi ac nid iwnifform. Holwyd hefyd pam nad oedd arwyddlun yr heddlu yng nghefndir y sgrin. Er bod un aelod wedi nodi y gallai arwyddluniau heddlu achosi problemau pe bai'r dioddefwr yn dymuno celu'r ffaith ei fod yn adrodd i'r heddlu, awgrymodd eraill, os yw hyn yn arfer cyffredin, y dylai'r swyddog fod wedi dangos ei fathodyn adnabod i brofi ei hunaniaeth cyn dechrau'r adroddiad.
- Roedd y panel o'r farn ei bod yn ymddangos bod y swyddog yn rhuthro'r dioddefwr a bod y broses o gasglu tystiolaeth ar frys o ganlyniad.

**Materion a godwyd**

- Ar gyfer ymateb cyflym drwy fideo yn y dyfodol, a ddylai swyddogion ddangos arwyddlun yr heddlu ar eu cefndir wrth siarad â'r cyhoedd?
- A ddylai'r swyddog ddatgelu ei fathodyn adnabod i'r dioddefwr?
- A oes cod gwisg yn gysylltiedig â swyddogion sy'n cynnal yr ymateb cyflym drwy fideo?

## 4. Sylwadau ac arsylwadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

| Arsylwadau | Ymateb yr heddlu |
|---|---|
| A ddylai swyddogion, cyn cymryd manylion gan ddioddefwyr, roi gwybod iddynt eu bod yn cael eu recordio gan y ddyfais camera corff ac y byddant yn defnyddio dyfais symudol â llaw at ddibenion cofnodi tystiolaeth, cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu neu ddatganiad? | *Mae canllawiau Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer camera corff yn nodi bod camera corff yn fecanwaith recordio amlwg a phan fydd defnyddwyr yn actifadu eu dyfais camera corff y dylent, oni bai ei fod yn anymarferol i wneud hynny oherwydd y sefyllfa, ymddygiad neu gyflwr y rhai sy'n bresennol, ddatgan yn llafar bod* |

| | |
|---|---|
| - Teimlai'r panel fod y broses a welwyd yn cynnwys rhai cyfnodau o ddistawrwydd lletchwith a chyfnodau hirfaith tra bod y swyddog yn cofnodi'r manylion.<br>- Cyfrannodd hyn at ddiffyg cyswllt llygad, sy'n hanfodol ym marn y panel ar gyfer tawelwch meddwl, empathi ac i ddarparu gwasanaeth da yn gyffredinol i ddioddefwyr troseddau sensitif. | *recordiad fideo a sain yn digwydd. Mae'r canllawiau'n nodi ei bod yn arfer da esbonio natur y digwyddiad neu'r rheswm pam mae'r recordio yn digwydd. Felly, derbynnir y dylai swyddogion egluro i'r dioddefwr ei fod yn cael ei recordio.*<br><br>*O ran defnyddio dyfeisiau llaw (terfynell symudol), byddai'n arfer da esbonio i ddioddefwyr y bydd angen i'r swyddog ddefnyddio'r ddyfais llaw i gofnodi gwybodaeth allweddol ynghylch eu honiad/cwyn er mwyn cael cofnodion cywir. Cydnabyddir bod cyfathrebu effeithiol (gan gynnwys cyfathrebu di-eiriau) yn bwysig er mwyn meithrin cydberthnasau â dioddefwyr.*<br><br>*Mae dysgu a datblygu wedi cadarnhau bod recriwtiaid newydd yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio dyfeisiau llaw a dywedir wrthynt am ystyried sut mae'r cyhoedd yn teimlo ynglŷn â'u defnydd. Cynghorir myfyrwyr y dylent esbonio i'r cyhoedd beth maent yn ei wneud (o ran y defnydd o ddyfeisiau llaw) a rhoi esboniad byr o'r hyn y mae'r ddyfais llaw yn ei wneud. Rhoddir gwers diwrnod llawn i fyfyrwyr ar gyfathrebu ac yn y gwersi hyn maent yn wynebu sefyllfaoedd amrywiol ac nid yw dyfeisiau llaw yn ymddangos yn ystod yr hyfforddiant hwn. Gwneir hyn yn bwrpasol i sicrhau nad yw dyfeisiau llaw yn rhwystro cyfathrebu. Atgoffir myfyrwyr yn aml o'r angen i fod yn ymwybodol o'r defnydd o'r ddyfais llaw a sut y canfyddir hyn. Amlygir hyn yn arbennig yn ystod yr wythnos bregusrwydd, gan ei fod yn dangos i fyfyrwyr sut y gellir ystyried y ddyfais llaw fel rhwystr wrth ddelio â dioddefwyr bregus.* |

| | |
|---|---|
| | *Bydd y materion a nodir yn y sylw hwn yn cael eu cynnwys yn y pecyn hyfforddi cam-drin domestig sydd yn y broses o gael ei greu ac fydd yn cael ei gyflwyno i swyddogion ym mis Ionawr 2025. Bydd hwn yn caniatáu i arferion da gael eu hatgyfnerthu ymysg staff rheng flaen.* |
| Yn Achos 1, nododd y panel, er bod ystyriaeth wedi ei roi i Orchymyn Diogelu Rhag Stelcio, cymerwyd dau fis a hanner i'w wrthod. Roedd hyn yn ymddangos yn gyfnod hir cyn ystyried gorchymyn sifil a holodd y panel y canlynol:<br>1. A gyfrannodd hyn at lai o gefnogaeth gan y dioddefwr i gamau gweithredu'r heddlu?<br>2. A ystyrir bod yr oedi wrth ystyried y gorchymyn sifil hwn yn ddigwyddiad cyffredin?<br>3. A yw'n bosibl bod y gwrth-honiad wedi bod yn ffactor pan leihaodd cysylltiad y dioddefwr â'r ymchwiliad hwn?<br>4. A ddylai swyddog yr achos fod wedi gwneud ymdrechion i ymweld â'r dioddefwr cyn penderfynu cau'r digwyddiad?<br>5. A ddylai rhesymeg y dioddefwr dros dynnu ei gefnogaeth yn ôl fod wedi cael ei chofnodi gan swyddog yr achos? | *Achos 1 - mae'n amlwg na wnaeth y dioddefwr dynnu ei chefnogaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Darparodd y di-oddefwr ddatganiadau i gefnogi'r honiad trwy gydol yr ymchwiliad. Penderfynwyd ar ddim gweithredu pellach oherwydd anawsterau tyst-iolaethol nad oedd yn gysylltiedig ag unrhyw achos o dynnu'n ôl gan y di-oddefwr. O ystyried bod y dioddefwr yn gwbl gefnogol, ac na dynnwyd cefnogaeth yn ôl, ni fyddai unrhyw ofyniad i gael datganiad tynnu'n ôl na gofyniad i ddogfennu unrhyw resymeg/rhesymau am hynny.*<br>*Mae'r polisi cam-drin domestig yn datgan, os yw dioddefwr yn nodi ei fod yn dymuno tynnu ei gefnogaeth i'r broses erlyn yn ôl, y dylid cymryd datganiad yn nodi ac yn disgrifio un-rhyw resymau dros dynnu'n ôl. Wedi dweud hynny, ni thynnodd y diodd-efwr ei chefnogaeth yn ôl yn yr achos hwn.*<br>*Mae angen eglurder ynghylch sut roedd y panel yn credu bod ymgys-ylltiad dioddefwyr wedi lleihau – gwnaethpwyd y gwrth-honiad yn y cyfweliad â'r un a ddrwgdybir ar 16 Mai 2024, cysylltwyd â'r dioddefwr ar 17 Mai 2024. Dogfennodd swyddog yr achos nad oeddent yn gallu symud ymholiadau yn eu* |

| | |
|---|---|
| | *blaenau oherwydd galwadau cystadleuol, dychwelodd o wyliau blynyddol ar 3 Mehefin 2024 a gwnaethpwyd penderfyniad dim gweithredu pellach ar 6 Mehefin 2024, tri diwrnod yn ddiweddarach.*<br><br>*Er ein bod yn cydnabod manteision ymgysylltu wyneb yn wyneb â dioddefwyr, nid yw ymweld â'r dioddefwr cyn cwblhau'r digwyddiad yn ofynnol fel gweithdrefn safonol mewn unrhyw bolisi perthnasol (stelcio ac aflonyddu a cham-drin domestig). Nid yw unrhyw ymweliad (neu ddiffyg ymweliad) yn ffactor sy'n cyfrannu at unrhyw benderfyniad i dynnu cymorth yn ôl yn yr achos hwn gan i'r dioddefwr fod yn gwbl gefnogol i gamau gweithredu'r heddlu drwy'r amser.*<br><br>*O ran ystyried Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio, mae'r polisi yn nodi y dylid ystyried defnyddio gorchmynion (fel Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio) o'r cychwyn cyntaf. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â'r gwasanaethau cyfreithiol a/neu'r cydgysylltydd sifil. Cofnodwyd y drosedd ar 16 Mawrth 2024 a chymeradwyodd y swyddog cyflawnwyr stelcio camdrin domestig y log ymholiadau gan nodi yr ystyriwyd Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio ar 15 Ebrill 2024, pan anfonwyd e-bost yn gofyn am adolygiad gan y gwasanaethau cyfreithiol ar yr un dyddiad. Ymatebodd y gwasanaethau cyfreithiol i'r cais hwn fis yn ddiweddarach gyda barn yn ymwneud â heriau ynghylch pam na ellid ystyried Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio. Cafodd Gorchymyn Diogelu Rhag Stelcio ei ystyried gan y Cydlynydd Cyflawnwyr Stelcio Cam-Drin Domestig a bu ymgysylltu cynnar â'r gwasanaethau cyfreithiol yn yr achos hwn.* |

| | |
|---|---|
| | *Mae'r gwasanaethau cyfreithiol yn cydnabod bod y cyfnod rhwng atgyfeirio ac ymateb y tu allan i'r amseroedd ymateb a fwriadwyd. Eithriad yn hytrach na'r norm oedd yr achos hwn, a oedd yn arwydd o'r heriau o ran adnoddau a wynebwyd yn y gwasanaethau cyfreithiol ar y pryd.*<br>*Mae'n bwysig nodi bod y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan y gwasanaethau cyfreithiol yn cael eu hystyried yn annigonol ac o'r herwydd treuliwyd amser yn ymchwilio'r achos yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn gweithio i fynd i'r afael ag ef, gan weithio gyda'r Cydlynydd Gorchmynion Sifil yn ei waith gyda chydweithwyr gweithredol.*<br>*Yn dilyn adolygiad, nid yw'n amlwg bod penderfyniadau neu oedi ynghylch y gorchymyn sifil wedi cael unrhyw effaith ar benderfyniad y dioddefwr i gefnogi gan fod hyn wedi'i gynnal drwy'r amser.*<br>*Er mwyn rhoi sicrwydd, mae swyddog cyflawnwyr stelcio camdrin domestig yr heddlu yn gwirio troseddau stelcio yn ddyddiol ac yn cymeradwyo pob achos o stelcio ac yn cynhyrchu tasg i swyddog yr achos o ran ystyried Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio. Mae hyn yn osgoi oedi diangen a dylai roi sicrwydd nad yw oedi yn ddigwyddiad cyffredin.* |
| Yn Achos 2, holodd aelodau'r panel a oedd y dioddefwyr yn cael eu cynghori i ystyried a oeddent am gael swyddog o'r un rhyw yn cynnal y cyfweliad.<br>Nododd y panel fod lluniau o rannau preifat yn cael eu tynnu i ddangos cleisio, ac nid oedd yn glir a oedd y | *Yn yr achos hwn, ymatebodd dau swyddog gwrywaidd i'r alwad. Mynychodd y swyddogion yr alwad yn ystod oriau mân y bore a dim ond un swyddog benywaidd oedd ar ddyletswydd ar y pryd yn gwasanaethu ardal Aberhonddu ym Mhowys.* |

| | |
|---|---|
| posibilrwydd o swyddog o'r un rhyw wedi cael ei archwilio? | *Byddai'r angen i gael tystiolaeth wedi'i gydbwyso yn erbyn yr angen i gynnig yr opsiwn o swyddog o'r un rhyw i dynnu'r lluniau.*<br><br>*Serch hynny, y rhannau y tynnwyd llun ohonynt oedd y droed, y goes a'r glun i ddangos cleisio.*<br><br>*Ni fyddai'r rhannau hyn fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai personol, o ran ffotograffiaeth a'r gofyniad i gael swyddog o'r un rhyw i dynnu lluniau. Pe bai'r dioddefwr wedi gofyn i luniau gael eu tynnu gan swyddog o'r un rhyw, byddai barn y dioddefwr yn cael ei hystyried, a byddai hyn yn cael ei drefnu.*<br><br>*Byddai ymchwilydd archwilio troseddfannau o'r un rhyw yn tynnu lluniau o rannau preifat.* |
| Gwnaeth y panel y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r ymateb cyflym drwy fideo:<br>1. A ddylai swyddogion ddangos arwyddlun yr heddlu ar eu cefndir wrth siarad â'r cyhoedd?<br>2. A ddylai'r swyddog ddatgelu ei fathodyn adnabod i'r dioddefwr?<br>3. A oes cod gwisg yn gysylltiedig â swyddogion sy'n cynnal yr ymateb cyflym drwy fideo? | *Mae canllawiau gweithdrefn swyddogion ar gyfer ymateb cyflym drwy fideo yn nodi y dylai swyddogion wisgo iwnifform os ydynt fel arfer yn swyddog heddlu mewn lifrai, a dillad sifil trwsiadus addas os yw eu dyletswyddau arferol yn galw am wisgo eu dillad eu hunain a gwisgo eu bathodyn adnabod gyda chefndir clir ac addas.*<br><br>*Derbynnir felly nad oedd yr hwdi a wisgwyd gan y swyddog yn yr alwad yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y canllawiau ac mae hwn wedi'i rannu â phrif arolygydd ac arolygydd yr uned ymateb rhithwir i gam-drin domestig i sicrhau cydymffurfiaeth wrth symud ymlaen. Er tawelwch meddwl, mae gwisgo iwnifform yn gyffredin yn yr uned ymateb rhithwir i gam-drin domestig, a byddai gwisgo'r hwdi wedi bod yn ddigwyddiad unigol.*<br><br>*Os yw'r swyddog yn gwisgo* |

| | |
|---|---|
| | *iwnifform yr heddlu, nid yw'n ofynnol iddo ddangos ei fathodyn adnabod. Fodd bynnag, pe na bai mewn iwnifform, byddai'n ofynnol iddo wneud hynny.*<br>*Mae arddangos arwyddlun yr heddlu yn cael ei osgoi (sef yr arweiniad a ddarperir gan Heddlu Caint) wrth ymgysylltu â dioddefwyr. Mae hyn er mwyn i'r dioddefwr (pe bai'n cael ei ddarganfod yn ymwneud â'r alwad ymateb cyflym drwy fideo) allu datgan ei fod ar alwad i'r meddyg teulu, er enghraifft, yn hytrach na'r heddlu oherwydd gallai ymgysylltu â'r heddlu wneud pethau'n waeth i ddioddefwyr.* |